THE ROYAL BRITISH LEGION

HEDDWCH A DIOGELWCH RHYNGWLADOL

Hyd at groestyniadau diweddar yn Afghanistan ac Iraq, lleolwyd byddinoedd Prydain ers y 1960au yng Ngogledd Iwerddon, yn Y Malfinas ac yna yn Rhyfel Cyntaf y Gwlff Fodd bynnag, ers 1945 bu Prydain ynghlwm â gweithgareddau cadw'r heddwch a gweithgareddau byddinoedd aml genedlaethol dros y **CU a NATO.**



Y Cenhedloedd Unedig (CU)

Crëwyd y Cenhedloedd Unedig (CU) yn swyddogol ar 24 Hydref, 1945. Roedd 50 o aelodau yn cynnwys y DG, yr Undeb Sofietaidd, UDA, Tseina a Ffrainc. Heddiw mae 192 o wledydd yn aelodau, pob un gyda'i phleidlais yn y Cynulliad Cyffredinol (un o brif gyrff penderfynu'r CU). Mae siarter y CU yn gosod allan yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer pob gwlad sy'n aelod i gydweithio. Mae'r rhain yn cynnwys:

I sefydlu amodau ar gyfer cynnal cyfiawnder a pharch am rwymedigaethau sy'n codi o gytundebau a ffynonellau cyfraith rhyngwladol eraill,

I uno ein cryfder i gynnal heddwch a diogelwch rhyngwladol,

Ac i sicrhau, drwy dderbyn egwyddorion a sefydlu dulliau, na ddefnyddir grym arfau, ar wahân er budd cyffredin.

Mae'r ail bwynt yn golygu bod y CU weithiau wedi pleidleisio i weithredu yn erbyn rhai gwledydd neu ymyrryd mewn rhai sefyllfaoedd – weithiau bu rhaid i'r gweithgaredd hynny fod yn filwrol.

Mudiad gwirfoddol yw'r CU sy'n dibynnu ar ymrwymiad ei aelod wledydd (Gwladwriaethau). Nid oes ganddo ei lu milwrol ei hun, felly os gwneir penderfyniad gan Gyngor Diogelwch neu Gyngor Cyffredinol y CU (y ddau brif gorff sy'n gwneud penderfyniadau) yna mae'n dibynnu ar ymrwymiad yr Aelod Wladwriaethau i wireddau'r penderfyniadau. Golyga hyn os gwneid penderfyniad sydd angen gweithredu milwrol, rhaid i Luoedd Arfog y 192 o aelod wledydd eu hymrwymo.

Cadw'r heddwch a chefnogaeth filwrol i'r CU

Y penderfyniad cyntaf olygodd fod y DG yn anfon milwyr i gefnogi Llu'r CU oedd yn Rhyfel Korea (1950–1953). Roedd Gogledd Korea wedi goresgyn De Korea a phleidleisiodd y CU i helpu'r De. Anfonodd y DG, ynghyd â llawer o wledydd eraill, fyddinoedd i helpu i wthio milwyr Gogledd Korea yn ôl. Ymladdodd miloedd o filwyr Prydeinig ochr yn ochr â milwyr o America, Canada, Awstralia, Seland Newydd, De Affrica, Twrci, Thailand, Groeg, Yr Iseldiroedd, Ethiopia, Colombia, Y Philipinas, Gwlad Belg a Lwcsembwrg. Lladdwyd dros fil o bersonél gwasanaeth Prydain.

Yn fwy diweddar, yn y 1990au, cymerodd filwyr Prydain ran mewn cadw heddwch pwysig yn y Balcanau yn Ewrop. Roedd Prydain, ynghyd â thaleithiau aelodol eraill y CU, yn Bosnia Herzegovina i geisio atal y croestyniad yno.

Ers y 1950au, cynorthwyodd dynion a merched gwasanaeth Prydeinig y CU yn ei weithgareddau cadw'r heddwch o gwmpas y byd – digwyddiadau na chlywn amdanynt yn aml am fod eu presenoldeb a dewrder yn atal eraill rhag cael eu lladd.

Cyfundrefn Cytundeb Gogledd Iwerydd (NATO)

Mae NATO yn fudiad arall y mae Prydain yn aelod blaenllaw ohono. Wedi ei sefydlu yn Ebrill 1949 gan wledydd o Ewrop a Gogledd America, mae ganddo gylch gwaith milwrol a gwleidyddol. Ar y cychwyn fe'i lluniwyd fel ymateb i'r Rhyfel Oer rhwng yr Undeb Sofietaidd a'r Gorllewin oedd wedi datblygu yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Er hynny, yn dilyn cwymp yr Undeb Sofietaidd, mae NATO wedi cymryd rôl fwy rhyngwladol gydag aelodaeth estynedig a gweithgareddau tu hwnt i ardal yr Iwerydd Ewropeaidd. Yn 1999 ymyrrodd byddinoedd Prydeinig, fel rhan o weithgaredd NATO, yn y Balcanau i atal glanhau ethnig yn Kosovo.

Ar hyn o bryd mae personél gwasanaeth Prydeinig yn Afghanistan fel rhan o fintai NATO yn y Fyddin Cynhorthwy Diogelwch Rhyngwladol. Mae dynion a merched Gwasanaeth Prydain yn dal i gael eu lladd yn rheolaidd yn y croestyniad hwnnw.

Am fwy o wybodaeth ewch i
www.un.org/aboutun/
www.nato.int